



Bwletin GwE

Rheoliadau Addysg [Diwygiadau'n Ymwneud â Gwybodaeth Aseidiadau Athrawon] 2018 ★NEWYDD★

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn gofyn am sylwadau ar y newidiadau arfaethedig i'r defnydd a wneir o ddata aseidiadau athrawon ar gael nawr. [Cliciwch yma](#).

Cwricwlwm i Gymru ★NEWYDD★

Mae cwricwlwm ysgol newydd yn gofyn am ddiwylliant dysgu newydd. Mae'n dechrau yma. Mae creu diwylliant dysgu ffyniannus mewn ysgolion ar draws Cymru yn hanfodol er mwyn cyflwyno ein cwricwlwm newydd yn llwyddiannus. [Canfyddwch mwyr...](#)

Cyhoeddi Deunyddiau Enghreifftiol Gwyddoniaeth ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 - 3

Dyma'r cyntaf mewn cyfres a gynlluniwyd i ddarparu cymorth wrth asesu gwyddoniaeth ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3.

Nod y [deunyddiau enghreifftiol](#) hyn, y gwnaeth staff GwE helpu eu creu, yw cynorthwyo ysgolion ac athrawon wrth wneud aseidiadau ar gyfer gwyddoniaeth ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3.

[Cliciwch yma](#), am ragor o fanylion.

Newyddion Cynradd

[Ŵy, Chips a Nain](#) ★NEWYDD★

SIOE DEULUOL AM ANGHOFIO COFIO – GAN GWMNI'R FRÂN WEN

Bydd y cynhyrchiad Wy, Chips a Nain, sydd ar gyfer plant 7+ oed, yn teithio ledled Cymru yn ystod y gwanwyn.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion neu ewch i [wefan Frân Wen](#).

Camau-STEM ★NEWYDD★

Byddai'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn ddiolchgar iawn petaech cystal â chwblhau holiadur di-enw a byr iawn, ar gyfer CAMAU STEM erbyn **18 Rhagfyr 2017**, drwy'r **ddolen gyswllt hon**.

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#).

Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru

Os ydych yn athro, athrawes, myfyriwr, rhiant, cyflogwr neu gydweithiwr, ac yn gwybod am rywun sy'n haeddu Gwobr Addysgu Proffesiynol, **dim ond tan hanner nos ar 30 Tachwedd 2017 sydd gennych i enwebu ar-lein**.

Mae yna 9 categori eleni, yn cynnwys categori 'Cefnogi Athrawon a Dysgwyr', sy'n cael ei ddyfarnu i unigolion sydd wedi darparu cymorth rhagorol ac wedi cael effaith eithriadol ar yr addysgu a'r dysgu yn yr ysgol.

[Cliciwch yma](#) am ragor o wybodaeth.

Catégorieiddio Cenedlaethol

DIWEDDARIAD I'R CATEGOREIDDIO CENEDLAETHOL

Mae'r [llythyr yma](#) gan Lywodraeth Cymru yn hysbysu ysgolion am y newidiadau i'r catégorieiddio cenedlaethol ac yn nodi na fydd Cam 1 yn cael ei gyhoeddi eleni. Mae'r Grŵp Ansawdd a Safoni hefyd wedi cyfarfod i ddiwygio'r [ddogfen ganllaw](#) ar gyfer 2017-18. I weld yr amserlen ar gyfer eleni, ac am ragor o wybodaeth, [cliciwch yma](#).

Newyddion Uwchradd

[Cyfle Olaf i Roi Adborth ar Gymwysterau TGAU](#)

Ewch i [wefan](#) Cymwysterau Cymru am ragor o wybodaeth.

[Newidiadau i Fesurau Perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 4 sy'n Effeithio ar Gofrestru'n Gynnar](#)

Ar 16 Hydref, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg [newidiadau i fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4](#) o ganlyniad i gynnydd sylweddol yn nifer y

Cyfleoedd Hyfforddi Cynradd

Gweithdai Rhifedd Trawsgwricwlaidd CA2

Gweithdai am ddim ar gyfer athrawon blynedd 3/4 a 5/6 i gyfoethogi darpariaeth rifedd drawsgwricwlaidd, gan sicrhau tasgau heriol, cyfoethog a diddorol sy'n anelu at symud pob dysgwr ymlaen. Nifer yn gyfyngedig.

[Cliciwch yma](#)

Arfarnu a Gwella Ansawdd Addysgu yn Effeithiol Drwy Ddefnyddio Continua

Addysgu – Yr Offeryn Hunan Arfarnu i

Athrawon - Gareth Coombes

HYFFORDDIANT AR GYFER HOLL BENAETHIAID NEU ARWEINWYR DYSGU YSGOLION Y RHANBARTH

Bwriad yr hyfforddiant yw cefnogi arweinwyr wrth fynd ati i wella addysgu ar gyfer dysgu mewn ffordd strwythuredig a chynaliadwy. [Cliciwch yma](#) i gofrestru. *Nodwch fod yr hyfforddiant yma drwy gyfrwng y Saesneg ond bydd y deunyddiau i gyd ar gael yn y Gymraeg.*

Hyfforddiant Into Film

Mae Into Film a GwE yn cynnal cwrs creu ffilm ar gyfer athrawon CA2. [Cliciwch yma](#) i gofrestru.

dysgwyr sy'n sefyll arholiadau TGAU yn gynnar yng Nghymru. [Parhau i ddarllen...](#)

Cyfleoedd Hyfforddi Uwchradd

Cemeg DIY yn y Dosbarth (CA3)

★NEWYDD★

DYDD IAU, 14 RHAGFYR 2017 – TECHNIQUEST, CAERDYDD – 2:00YP – 6:00YH

Ddydd Iau 14 Rhagfyr fe'ch gwahoddir i wneud cais i fynychu gweithdai hanner diwrnod am ddim i athrawon gwyddoniaeth CA3 yn Techniquest, Caerdydd. Dewch draw i ddarganfod ystod eang o weithgareddau ymarferol diogel gydag adnoddau ar gyfer cemeg y gallwch eu cynnal yn eich ystafell ddosbarth.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

DPP i Gefnogi Cyflwyno Rhifedd ar Lefel

2 ac Elfennau o Lefel 3 yn y Dystysgrif

Her Sgiliau (WBACC) ★NEWYDD★

Bydd GwE yn cynnal dau fore o hyfforddiant Rhifedd. Zoe Evans sy'n cyflwyno'r hyfforddiant, fydd yn seiliedig ar y PU, a chewch weld yn uniongyrchol sut y gellir defnyddio rhifedd yn effeithiol yn y PU.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion, neu [yma i gofrestru](#).

Hyfforddiant Cymhwysedd Digidol

Ysgolion

Mae nifer o gyrsiau wedi eu trefnu ar gyfer yr hanner tymor nesaf.

[Cliciwch yma](#) am y rhestr.

Cyfarfodydd Fforwm Cydlynwyr Rhifedd CA3

Gwahoddir Cydlynwyr Rhifedd CA3 i fynychu un o'r cyfarfodydd fforwm a restrir [yma](#).

Mathemateg Uwchradd

HYFFORDDIANT GAN YR MEI YNG NGOGLEDD CYMRU

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#).

(Ymddiheurwn nad yw'r hysbyseb ar gael yn y Gymraeg)

Cynhadledd Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PCET): Ymagwedd

Gydweithredol Darparwyr at

Ddarpariaeth

DYDD IAU, 30 TACHWEDD 2017 – 9:30YB-3:30YP – STADIWM CAERDYDD, LECKWITH

Mae Colegau Cymru / Fforwm Services Ltd yn falch o gynnal Cynhadledd Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PCET) - Ymagwedd Gydweithredol Darparwyr at Ddarpariaeth.

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#). I gofrestru, dilynwch y [ddolen hon](#).

Cyfleoedd Datblygu Proffesiynol

Rhaglen Hyfforddiant GwE i ANG Cynradd ac Uwchradd ★NEWYDD★

Cyhoeddwyd dyddiadau hyfforddiant ANG a gynhelir gan GwE yn ystod tymor y gwanwyn a thymor yr haf 2018 ar wefan GwE.

[Cliciwch yma.](#)

Cynllun Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch – CALU

Ydych chi am ennill statws CALU? Mae'r rownd nesaf yn cychwyn yn fuan.

Dewch i un o'r Sesiynau Gwybodaeth CALU ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu a'u Penaethiaid/Rheolwyr, a gynhelir ar draws y rhanbarth rhwng 11 ac 16 Ionawr 2018.

Dilynwch y [ddolen](#) am ragor o wybodaeth, yn cynnwys dyddiadau a lleoliadau'r Sesiynau Gwybodaeth.

Gwybodaeth bwysig i CALUau a Chymorthyddion Dysgu ar draws Cymru

A. CYNHELIR CYNADLEDDAU CALU AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:

- GwE – Dydd Gwener, 2 Mawrth 2018
- CCD / GCA – Dydd Llun, 5 Mawrth 2018
- ERW – Dydd Mawrth, 6 Mawrth 2018

Ni fydd unrhyw gost i fynychu'r gynhadledd a thelir costau llanw.

Am fanylion pellach, cysylltwch â'ch consortiwm rhanbarthol ar calu@gwegogledd.cymru os gwelwch yn dda neu ewch ar wefan eich consortiwm rhanbarthol.

B. TYMOR Y GWANWYN 2018

Darperir dwy raglen newydd ar draws Cymru ar gyfer Cymorthyddion Dysgu:

- Sefydlu ar gyfer cymorthyddion dysgu newydd
- Hyfforddiant cymorthyddion dysgu profiadol

Ni fydd unrhyw gost ynghlwm â'r rhaglenni a thelir costau llanw.

Am ragor o wybodaeth, yn cynnwys dyddiadau a lleoliadau, ewch ar [wefan eich consortiwm rhanbarthol](#).

Cyfleoedd Hyfforddi Eraill

“Arhoswch yn Ddiogel, Byddwch yn Ddiogel” : Deall Eich Cyfrifoldebau Proffesiynol

Mae Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA), mewn cydweithrediad â GwE, yn cynnig y sesiwn hon i bob ymarferwr ac i'r rhai sydd â chyfrifoldeb am staff.

Cynhelir y sesiynau dwy-awr hyn ar 5 a 6 Rhagfyr yn Nhŷ Menai, Bangor, yn yr OpTIC yn Llanelwy, ac ym Mhrifysgol Glyndŵr yn Wrecsam. Ni fydd cost i'r rhai sy'n mynychu. Saesneg fydd iaith y cyflwyniad, gyda chyfieithydd yn bresennol yn Nhŷ Menai, ac yn yr OpTIC yn ôl yr angen. Am ragor o fanylion ac i gofrestru, [cliciwch yma](#).

Y Rhaglen Feithrin Genedlaethol i Ysgolion

- 5 RHAGFYR 2017 – VENUE CYMRU, LLANDUDNO
- 8 RHAGFYR 2017 – PRIFYSGOL GLYNDŴR, WRECSAM

Bwriad y gweithdy undydd yw rhoi cipolwg i chi o'r Rhaglen Feithrin Genedlaethol i Ysgolion, dan arweiniad y Rhwydwaith Grŵp Meithrin (Nurture Group Network).

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Mwy Abl a Thalentog: Adnabod a Chefnogi Disgyblion MATH Mewn Celf HYFFORDDIANT ATHRAWON BL. 5-9

Cyfle i ddysgu mwy am sut i adnabod a chefnogi disgyblion sy'n fwy abl a thalentog ym maes celf, yng nghwmni'r athrawes brofiadol Jane Barraclogh ac artistiaid proffesiynol amrywiol.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â janemuir25@hotmail.com.

Cofrestrwch ar-lein gan ddefnyddio [Eventbrite](#), manylion ar gael ar Facebook a Twitter: [@EdauCymru](#)

Digwyddiadau a Hysbysebion

'Agweddau ar Ddwieithrwydd'

Mae mynediad am ddim at e-lyfr 'Agweddau ar Ddwieithrwydd' (Aspects on Bilingualism), a ysgrifennwyd gan Enlli Thomas a Peredur Webb-Davies (2017), ar gael ar-lein ar y [wefan hon](#).

Mi all y llyfr fod yn gefndir defnyddiol i bob athro.

Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig – 2018

Lansiwyd y Fenter ym 1990, dan nawdd y Sefydliad Materion Cymreig. Y nod yw annog pobl ifanc mewn ysgolion yng Nghymru i ymddiddori mwy yn eu treftadaeth ac yng nghyfraniad eu teuluoedd a'u cymunedau at y dreftadaeth honno. Mae'r Fenter yn cynnal cystadleuaeth flynyddol ar gyfer projectau treftadaeth yn ysgolion Cymru.

Cofiwch ddilyn @GwEGogleddCymru ar Twitter

GwEGogledd.Cymru

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n [gwefan](#)

